



Dogfen Bolisi Briodol

Mae Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018) yn nodi'r gofyniad i sicrhau bod Dogfen Bolisi Briodol (APD) ar waith wrth brosesu data categori arbennig a data am droseddau o dan rai amodau penodedig penodol.

Mae fwy neu lai pob un o'r amodau budd y cyhoedd sylweddol yn Atodlen 1 Rhan 2 o Ddeddf 2018, ynghyd â'r amod ar gyfer prosesu data cyflogaeth, nawdd cymdeithasol ac amddiffyniadau cymdeithasol, yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi sicrhau bod Dogfen Bolisi Briodol ar waith. (Gweler Atodlen 1 paragraffau 1(1)(b) a 5).

Dylai'r ddogfen hon ddangos bod y gweithgarwch o brosesu data categori arbennig a data am droseddau yn seiliedig ar yr amodau penodol hyn o dan Atodlen 1 yn cydymffurfio â gofynion egwyddorion Erthygl 5 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Yn arbennig, dylai amlinellu eich polisiâu cadw mewn perthynas â'r data hyn. (Gweler Atodlen 1 Rhan 4).

Polisi cyffredinol ar gyfer gweithgarwch prosesu data categori arbennig a/neu ddata am droseddau gan yr heddlu yw'r ddogfen hon. Lle bo risgiau uchel posibl o ganlyniad i weithgareddau prosesu penodol, caiff dogfen bolisi wedi'i theilwra'n arbennig ei llunio mewn perthynas â'r gweithgarwch hwnnw. Fodd bynnag, dim ond ar sail eithriadol y gwneir hyn.

Fodd bynnag, os ydych yn dibynnu ar un o'r amodau hyn, mae'n rhaid i'ch cofnod cyffredinol o weithgareddau prosesu o dan Erthygl 30 GDPR gynnwys y canlynol:

- (a) yr amod y dibynnir arni;
- (b) sut mae'r gweithgarwch prosesu yn bodloni Erthygl 6 y GDPR (cyfreithlondeb prosesu); ac
- (c) a gaiff y data personol eu cadw a'u dileu yn unol â'r polisiau cadw a amlinellir yn y Ddogfen Bolisi Briodol hon, ac os na, y rhesymau pam na ddilynwyd y polisiau hyn.

Mae'n rhaid i chi adolygu'r Ddogfen Bolisi Briodol yn rheolaidd a bydd angen ei chadw am chwe mis ar ôl y dyddiad y byddwch yn rhoi'r gorau i'r gweithgarwch prosesu perthnasol.

Disgrifiad o'r data a brosesir

Rhowch ddisgrifiad cryno o bob categori o ddata categori arbennig/data am droseddau a brosesir

- Manylion cyflogaeth;
- Manylion ariannol;
- Tarddiad hiliol neu ethnig;
- Safbwyntiau gwleidyddol;
- Credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg;
- Cyflwr iechyd corfforol neu iechyd meddwl;
- Bywyd rhywiol;
- Troseddau a throseddau honedig;
- Achosion troseddol, canlyniadau a dedfrydau;
- Rhybuddiadau, ceryddion a rhybuddion;
- Dynodwyr corfforol, gan gynnwys DNA, olion bysedd a samplau genetig eraill;
- Ffotograffau, recordiadau sain a delweddau gweledol;
- Cudd-wybodaeth Droseddol;
- Gwybodaeth yn ymwneud â diogelwch;
- Digwyddiadau, a manylion am Ddamweiniau

Amod Atodlen 1 ar gyfer prosesu

Nodwch enw a rhif paragraff eich amod(au) berthnasol (perthnasol) o dan Atodlen 1 ar gyfer prosesu. Fel arall, mae'n bosibl y byddwch am roi dolen i'ch polisi preifatrwydd, eich cofnod prosesu neu unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall:

- [Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu De Cymru \(south-wales.police.uk\)](#)
- [Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu Gwent](#)
- Bydd amod atodlen 1 yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion

Mae angen i chi esbonio, yn gryno a chan gyfeirio at yr amodau y dibynnir arnynt, sut mae eich gweithdrefnau yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion isod.

Mae hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau atebolrwydd. Mae cyfrifoldeb arnoch i ddangos bod eich polisiâu a'ch gweithdrefnau yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion ehangach y GDPR ac, yn benodol, yr egwyddorion. Mae sensitifrwydd data categori arbennig a data am droseddau yn golygu bod y mesurau technegol a threfniadol sydd ar waith gennych i ddiogelu data o'r fath yn holl bwysig.

Bwriedir i'r cwestiynau a restrir ym mhob blwch eich helpu i ddisgrifio sut rydych yn bodloni pob egwyddor yn gyffredinol, ac maent yn seiliedig ar y rhestr wirio ar gyfer pob egwyddor a ddarperir yn y [Canllaw i'r GDPR](#). Nid ydynt yn gynhwysfawr a dim ond fel canllaw yn unig y bwriedir iddynt weithredu.

Wrth esbonio eich cydymffurfiaeth â'r egwyddorion, dylech ystyried manylion penodol eich gweithgarwch prosesu mewn perthynas â'r data categori arbennig a'r data am droseddau a nodwyd gennych uchod.

Nid oes unrhyw ofyniad ychwaith i atgynhychu gwybodaeth a gofnodir yn rhywle arall – **gellir ateb cwestiynau drwy ddarparu dolen neu gyfeiriad at ddogfennaeth arall, at eich polisiâu a'ch gweithdrefnau, at Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) neu at eich hysbysladau preifatrwydd.**

Yr egwyddor atebolrwydd

- i. A ydym yn cadw dogfennaeth briodol am ein gweithgareddau prosesu?
Ydym – cedwir cofnodion prosesu, Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA), contractau, archwiliadau, profion diogelwch ac ati.
- ii. A oes gennym bolisi diogelu data priodol?
Oes, mae polisi diogelu data cyffredinol a ategir gan ganllawiau a dogfennau proses.
- iii. A ydym yn cynnal aseidiadau o'r effaith ar ddiogelu data (DPIA) wrth ddefnyddio data personol mewn ffyrdd sy'n debygol o beri risg uchel i fuddiannau unigolion?
Ydym – caiff cwestiynau sgrinio DPIA eu cwblhau fel arfer gorau a chaiff aseidiadau o'r fath eu cynnwys fel rhan o brosesau â chanllawiau i nodi pryd y byddant yn orfodol.

Egwyddor (a): cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder

- i. A ydym wedi nodi sail gyfreithlon briodol ar gyfer prosesu ac amod bellach o dan Atodlen 1 ar gyfer prosesu data categori arbennig/data am droseddau?
Ydym – bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.
[Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu De Cymru \(south-wales.police.uk\)](#)
[Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu Gwent](#)
- ii. A ydym yn sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael am breifatrwydd mewn perthynas â'r data categori arbennig/data am droseddau?
Ydym – caiff y wybodaeth hon ei darparu yn yr hysbysiad preifatrwydd a chaiff gwybodaeth ychwanegol ei darparu hefyd ar adeg casglu'r wybodaeth lle y bo'n briodol neu'n angenrheidiol.
- iii. A ydym yn agored ac yn onest wrth gasglu'r data categori arbennig/data am droseddau ac a ydym yn sicrhau na fyddwn yn twyllo nac yn camarwain pobl ynghylch y defnydd a wneir o'r data?
Ydym – rydym yn gweithredu'n unol â gofynion tryloywder diogelu data a Chod Moeseg yr Heddlu.

Egwyddor (b): cyfyngiadau o ran dibenion

- i. A ydym wedi nodi ein diben(ion) ar gyfer prosesu'r data categori arbennig/data am droseddau yn glir?
Caiff yr angen a'r diben ar gyfer y data hyn eu nodi fesul achos unigol.
- ii. A ydym wedi cynnwys manylion priodol am y dibenion hyn yn ein gwybodaeth i unigolion am breifatrwydd?
Darperir manylion:
[Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu De Cymru \(south-wales.police.uk\)](#)
[Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu Gwent](#)
- iii. Os ydym yn bwriadu defnyddio data personol at ddiben newydd (ac eithrio rhwymedigaeth neu swyddogaeth gyfreithiol a nodir yn y gyfraith), a ydym yn cadarnhau bod y diben hwn yn gydnaws â'n diben gwreiddiol neu'n cael cydsyniad penodol ar gyfer y diben newydd?
Cynhelir prawf cydnawsedd neu darperir gwybodaeth ychwanegol am brosesu teg. Lle y defnyddir cydsyniad, caiff cydsyniad newydd ei gasglu.

Egwyddor (c): lleihau data

- i. A ydym yn fodlon mai dim ond data personol categori arbennig/data personol am droseddau sydd eu hangen o ddifrif arnom at ein dibenion dynodedig a gesglir gennym?
Ydym.
- ii. A ydym yn fodlon bod gennym ddigon o ddata categori arbennig/data am droseddau i gyflawni'r dibenion hynny'n briodol?
Ydym.
- iii. A ydym yn adolygu'r data categori arbennig/data am droseddau penodol hyn yn rheolaidd, ac yn dileu unrhyw beth nad oes ei angen arnom?
Ydym – mae'r holl ddata yn ddarostyngedig i amserlenni ac adolygiadau cadw.

Egwyddor (d): cywirdeb

- i. A oes prosesau priodol ar waith gennym i gadarnhau cywirdeb y data categori arbennig/data am droseddau a gesglir gennym, ac a ydym yn cofnodi ffynhonnell y data hynny?

Ydym, lle y bo'n bosibl – er bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr unigolyn, o dan rai amgylchiadau, i ddarparu gwybodaeth gywir.

- ii. A oes proses ar waith gennym i nodi pan fo angen i ni ddiweddarau'r data categori arbennig/data am droseddau yn rheolaidd er mwyn cyflawni ein diben yn briodol, ac a ydym yn eu diweddarau fel y bo angen?

Ydym.

- iii. A oes polisi neu gyfres o weithdrefnau gennym sy'n amlinellu sut rydym yn cadw cofnodion o gamgymeriadau a barnau, sut rydym yn ymdrin â heriau o ran cywirdeb y data a sut rydym yn sicrhau cydymffurfiaeth â hawl yr unigolyn i gywiro data?

Oes, mae polisi diogelu data cyffredinol â chanllawiau ategol ar hawliau unigolion.

Egwyddor (e): cyfyngiadau storio

- i. A ydym yn ystyried yn ofalus am ba hyd y byddwn yn cadw data categori arbennig/data am droseddau ac a allwn gyfiawnhau'r cyfnod hwn? Mae'r holl ddata yn ddarostyngedig i amserlenni cadw.

- ii. A ydym yn adolygu ein gwybodaeth yn rheolaidd ac yn dileu neu'n anonymeiddio'r data categori arbennig/data am droseddau hyn pan na fydd eu hangen arnom mwyach?

- iii. Ydym – cynhelir adolygiadau o fewn amserlenni cadw.

- iv. A ydym wedi nodi'n glir unrhyw ddata categori arbennig/data am droseddau y mae angen i ni eu cadw at ddibenion archifau budd y cyhoedd, dibenion sy'n ymwneud ag ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol?

Ydym – er y caiff y data hyn eu hanonymeiddio neu y defnyddir ffugenwau lle y bo'n bosibl.

Egwyddor (f): uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)

- i. A ydym wedi dadansoddi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch prosesu ac wedi defnyddio'r dadansoddiad hwn i asesu'r lefel briodol o ddiogelwch sydd ei hangen arnom ar gyfer y data hyn?
Ydym – caiff data eu hasesu mewn nifer o ffyrdd, DPIA, asesiadau risg, asesiadau risg o wybodaeth a rheoli asedau gwybodaeth, cydymffurfiaeth o ran Diogelu Data ac maent hefyd yn ddarostyngedig i Gynllun Dosbarthu Data'r Llywodraeth.
- ii. A oes polisi diogelu gwybodaeth (neu bolisi cyfatebol) gennym mewn perthynas â'r data categori arbennig/data am droseddau hyn ac a ydym yn cymryd camau i sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith? A gaiff ei adolygu'n rheolaidd? Mae data sensitif a gaiff eu prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith yn ddarostyngedig i ofynion rheoleiddiol a statudol o ran cadw. Ceir polisi diogelu gwybodaeth sy'n ymdrin â rheolaethau mynediad a mesurau diogelwch technegol a pholisi diogelu data cyffredinol sy'n nodi'r gofynion prosesu ar gyfer data.
- iii. A ydym wedi rhoi mesurau neu reolaethau technegol eraill ar waith oherwydd yr amgylchiadau a'r math o ddata sensitif rydym yn eu prosesu?
- iv. Cedwir y wybodaeth ar systemau diogelu yr heddlu. Caiff defnyddwyr eu fetio a dim ond y rheini y mae angen iddynt wneud hynny a gaiff weld y wybodaeth. Darperir hyfforddiant i bob aelod o staff bob blwyddyn a cheir Tîm Rheoli Gwybodaeth dynodedig sy'n darparu cyngor penodol a chyffredinol i'r heddlu ar faterion sy'n ymwneud ag ymdrin â data. Caiff asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data (DPIA) eu cynnwys o fewn prosesau er mwyn sicrhau y caiff mesurau priodol eu cymryd mewn perthynas â gwahanol fathau o ddata.

Polisiâu cadw a dileu

Mae angen i chi esbonio eich polisiâu cadw a dileu mewn perthynas â phob categori o ddata categori arbennig/data am droseddau (gallai hyn gynnwys dolen i'ch polisi cadw os oes gennych bolisi o'r fath). Mae angen i chi nodi'n benodol pa mor hir rydych yn debygol o gadw pob categori penodol o ddata categori arbennig/data am droseddau.

Caiff data anweithredol sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol eu cadw yn unol â pholisi cadw'r heddlu.

Dyddiad Adolygu'r Ddogfen Bolisi Briodol

Gorffennaf 2022